**CYPE(6)-05-21 - Papur i'w nodi 4**

**YMGYRCH HANES CYMRU**

18 Hydref 2021

Annwyl Jane Bryant,

Ysgrifennaf atoch yn dilyn cyhoeddi adroddiad diweddar Estyn, *Addysgu hanes Cymru gan gan gynnwys hanes, hunaniaeth a diwylliant Pobl Ddu, Asiaidd a Lleifarifoedd Ethnig*. Mae canfyddiadadau'r adroddiad yn cadarnhau'n gwbl glir ein pryder na fu unrhyw newid sylweddol nac arwyddocaol o ran dysgu hanes Cymru ers cyhoeddi adroddiad *Y Cwricwlwm Cymreig, hanes a stori Cymru* yn 2013. Mae'r dyfyniadau isod o adroddiad Estyn yn dangos pa mor ddiffygiol yw'r sefyllfa,

> *Mewn lleiafrif o ysgolion cynradd, nid yw hanes lleol a hanes Cymru yn rhan annatod o gwricwlwm yr ysgol, a chânt eu hystyried yn elfen 'ychwanegol'.*
>
> *Mewn ychydig o ysgolion, nid yw staff yn ystyried hanes lleol a hanes Cymru o gwbl wrth gynllunio eu gwersi.*
>
> *Mewn llawer o ysgolion uwchradd, mae gwersi'n cynnwys cyfeiriadau brysiog yn unig at hanes lleol a hanes Cymru.*
>
> *caiff hanes lleol a hanes Cymru eu cynnwys fel elfen 'ychwanegol' o'r cwricwlwm hanes.*
>
> *Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynnwys cyfeiriadau brysiog neu wersi un-tro ar hanes lleol a hanes Cymru.*

Mae'n amlwg fod diffygion sylweddol yn parhau ac mae angen arweiniad cadarn gan y Gweindog Addysg ynghyd â chefnogaeth i ysgolion ac athrawon o ran hyfforddiant ac adnoddau os am sicrhau bod amcanion clodwiw Cwricwlwm 2022 yn mynd i gael eu gwireddu.

Mewn ateb a dderbyniwyd gennym gan Kirsty Williams (ei chyf. TO/KW/06465/20) nodir nifer o ddatganiadau pwysig. Dyfynnaf isod o'r ateb hwnnw ynghyd â chwestiynau gennym. Galwn ar y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i ofyn yr un cwestiynau ac i y bydd hanes Cymru'n cael ei ddysgu'n briodol wrth i'r cwricwlwm newydd gael ei weithredu.

***Bydd ysgolion yn cael cymorth i ymgysylltu â gweithwyr treftadaeth proffesiynol, amgueddfeydd ac orielau, yn ogystal ag arweinwyr cymunedol a diwylliannol wrth gynllunio eu cwricwlwm.***

Sut ac ym mha fodd yr estynnir y cymorth yma?

***Yn gynharach eleni*** (sef 2020) ***cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad o'r holl adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd i gefnogi addysgu hanes Cymru mewn ysgolion, er mwyn nodi unrhyw fylchau yn yr adnoddau hynny.***

A yw canlyniadau'r adolygiad yma ar gael yn gyhoeddus?

A oes rhestr neu gatalog o adnoddau wedi ei lunio?

Pa fylchau a ganfyddwyd a pha fesurau a gymerwyd i lenwi'r bylchau hynny?

***Fel y nodwch yn eich llythyr, penodwyd yr Athro Charlotte Williams OBE, i gadeirio Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin: Profiadau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a'r cwricwlwm newydd.***

Yn ein llythyr dyddiedig 11 Tachwedd roeddem yn galw am sefydlu gweithgor tebyg i edrych ar y modd y cyflwynir hanes Cymru. A fyddwch yn sefydlu gweithgor o'r fath?

***Ym mis Hydref*** (2020) ***cyhoeddodd y Gweinidog . . . y bydd cynllun gweithredu yn cael ei ddatblygu ar gyfer y cwricwlwm ac y bydd rhwydwaith cenedlaethol o ymarferwyr a rhanddeiliad yn cael ei sefydlu.***

A yw'r cynllun gweithredu y cyfeirir ato wedi cael ei ddatblygu?

A ydyw ar gael yn gyhoeddus?

A oes rhwydwaith o ymarferwyr a rhanddeiliaid wedi ei sefydlu?

***Caiff cynllun gweithredu ei gyhoeddi yn fuan yn amlinellu'r prif heriau wrth weithredu'r cwricwlwm . . .***

A yw'r cynllun gweithredu wedi ei gyhoeddi?

Os ydyw, beth oedd y prif heriau a ganfyddwyd? Sut y bwriedir ymdrin â'r heriau hynny?

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich ymateb.

Yn gywir,
Eryl Owain
***Cyd-lynydd Ymgyrch Hanes Cymru***